# Adolygiad o gyflogau a graddfeydd staff - cam 1

## Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

Gorffennaf 2024

## Y cefndir

**1.** Ym mis Mai 2024, cyhoeddodd y Bwrdd yr adroddiad terfynol o Gam 1 o adolygiad o gyflogau a graddfeydd staff cymorth yr Aelodau, a baratowyd gan Beamans. Gwahoddwyd yr Aelodau a staff cymorth i roi eu barn ar y canlynol:

- Ymarferoldeb ac addasrwydd y model a ffefrir gan y Bwrdd ar gyfer fframwaith cyflogau a graddfeydd diwygiedig neu fodelau amgen a nodir yn adroddiad Beamans.
- I ba raddau y byddai hyn yn cyflawni amcanion yr Adolygiad Staffio.
- Unrhyw faterion o ran cydraddoldeb y dylid eu hystyried fel rhan o'r gwaith hwn.

**2.** Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 23 Mai a 27 Mehefin 2024.

**3.** Cafwyd cyfanswm o chwe ymateb:

- Y Grŵp Llafur
- Grŵp y Ceidwadwyr
- Grŵp Plaid Cymru
- Uno'r Undeb
- PCS
- Comisiwn y Senedd

**4.** Mae'r papur hwn yn rhoi crynodeb lefel uchel o'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

## Crynodeb o'r ymatebion

### Safbwyntiau ar deuluoedd swyddi

**5.** Roedd ymateb y Bwrdd i adroddiad Cam 1 yn nodi ffafriaeth i symud i strwythur cyflogau a graddfeydd yn seiliedig ar deuluoedd swyddi.

**6.** Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn croesawu'n ofalus newid i deuluoedd swyddi, gan nodi'r gallu i alinio cyflogau'n well â rolau tebyg yn y farchnad lafur y mae'r model hwn yn ei ddarparu, tra hefyd yn tynnu sylw at amrywiaeth o faterion y teimlwyd bod angen eu hystyried fel rhan o gam nesaf yr adolygiad i sicrhau bod model teuluoedd swyddi yn addas at y diben (amlinellir y rhain isod).

**7.** Dywedodd ymatebwyr na fynegodd ffafriaeth ar gyfer unrhyw un o'r opsiynau a amlinellwyd yn adroddiad Cam 1 fod hyn oherwydd nad oedd dim o'r opsiynau yn darparu'r hyblygrwydd cynyddol y maent am ei weld mewn fframwaith cyflogau a graddfeydd newydd.

### Heriau a materion i'w hystyried wrth i fframwaith newydd gael ei ddatblygu

**8.** Dadleuodd nifer o ymatebwyr ei bod yn heriol edrych ar gwestiynau ynghylch y fframwaith cyflogau a graddfeydd ar wahân i gwestiwn cyllideb staffio'r Aelodau (Lwfans Gwariant Staffio). Roedd galwadau i sicrhau bod y ffrydiau gwaith gwahanol hyn yn gydgysylltiedig wrth i'r adolygiad fynd rhagddo.

#### Cymaryddion cyflog

**9.** Galwodd nifer o ymatebwyr am gynnal arolwg cyflog fel mater o frys, gan dynnu sylw at yr angen i sicrhau bod cymaryddion priodol yn cael eu defnyddio ar gyfer pennu cyflogau. Galwodd llawer am gymharu â Chomisiwn y Senedd, yn ogystal â rolau mewn seneddau a gwasanaethau cyhoeddus eraill. Galwodd rhai am gymharu â rolau fel Cynghorwyr Arbennig y llywodraeth a rolau yn swyddfa Arweinydd yr Wrthblaid yn San Steffan.

**10.** Tynnodd nifer o ymatebwyr sylw at gymhlethdod rolau gweithwyr achos, a'r angen i roi sylw arbennig i ddod o hyd i gymaryddion cyflog priodol. Awgrymwyd rolau sy'n cynnwys datrys problemau ac eiriolaeth, megis gweithwyr achos undebau llafur.

**11.** Roedd materion eraill a amlygwyd fel rhai a oedd yn berthnasol i gwestiynau meincnodi cyflog yn cynnwys y lefel uwch o gam-drin y mae staff gwleidyddol yn ei wynebu, ansicrwydd swydd a'r Cyflog Byw gwirioneddol.

**12.** Croesawyd nifer is o bwyntiau cyflog ar gyfer bandiau cyflog is mewn nifer fach o ymatebion.

### Datblygiad cyflog

**13.** Cafwyd ymatebion cymysg ar ddatblygiad cyflog. Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn cefnogi cadw codiadau cyflog cynyddrannol blynyddol. Galwodd rhai ymatebwyr am fwy o hyblygrwydd i'r Aelodau allu symud staff i fyny'r pwyntiau cyflog yn gyflymach, yn enwedig mewn perthynas â materion cadw staff.

### Hyblygrwydd

**14.** Amlygodd nifer o ymatebwyr nad yw rolau, mewn swyddfeydd bach, bob amser yn ffitio'n daclus i un teulu swyddi yn unig. Roedd pryderon na ddylai fframwaith teuluoedd swyddi fod yn rhy gyfyngol, fel y gall yr Aelodau barhau i gael hyblygrwydd ynghylch sut y maent yn darparu adnoddau ar gyfer eu swyddfa.

**15.** Cododd rhai ymatebwyr y mater o gydweithwyr yn aml angen cyflawni rolau eraill mewn swyddfeydd bach, a bod angen i'r Aelodau amrywio ffocws eu swyddfa i ymateb i bwysau llwyth gwaith; y farn oedd y byddai angen i system newydd fod yn ymatebol i hyn.

## Gweithredu fframwaith newydd

**16.** Roedd consensws cyffredinol na ddylai neb fod ar eu colled o ganlyniad i symud i fframwaith newydd ac y dylid diogelu cyflogau. Cafwyd galwadau gan y rhan fwyaf o ymatebwyr am gymorth ac arweiniad digonol i'r Aelodau i sicrhau eu bod yn gallu cynnal yr ymarfer gwerthuso swyddi angenrheidiol yn effeithiol.

**17.** Galwodd y rhan fwyaf o ymatebwyr am ymgysylltiad ac ymgynghoriad parhaus â'r Aelodau, staff cymorth ac undebau llafur wrth i gam nesaf y gwaith hwn fynd rhagddo.

## Cwantwm Lwfans Gwariant Staffio

**18.** Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr nad oedd y Lwfans Gwariant Staffio presennol yn ddigonol, ac y bydd mynd i'r afael â hyn yn hollbwysig i'r Seithfed Senedd.

**19.** Tynnodd rhai ymatebwyr sylw at anawsterau wrth ymateb i'r materion yn yr ymgynghoriad hwn ar wahân i gwantwm, a nodwyd bod angen i'r gwahanol ffrydiau gwaith fynd rhagddynt ar y cyd.

## Cydraddoldeb

**20.** Roedd nifer o ymatebion yn galw am gynnal asesiad llawn a chynhwysfawr o effaith ar gydraddoldeb cyn gynted â phosibl. Mynegwyd pryder ynghylch diffyg asesiad o'r fath fel rhan o Gam 1, gan nodi'r angen i gydraddoldeb gael ei ystyried o'r cychwyn cyntaf er mwyn sicrhau tegwch.

## Materion ehangach

**21.** Amlygodd ymatebwyr hefyd nifer o faterion ehangach nad ydynt yn uniongyrchol o fewn cwmpas yr adolygiad o gyflogau a graddfeydd. Yn eu plith roedd:

- Trefniadau pensiwn
- Taliadau dileu swyddi
- Parhad gwasanaeth
- Hawl i absenoldeb sabothol, absenoldeb di-dâl a secondiadau
- Cydfargeinio a phartneriaeth gymdeithasol.